department for
culture, media
and sport

Dosbarthiad gemau fideo:
ymgynghoriad

gwella
ansawdd
bywyd pawb

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd pawb trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cynorthwyo'r ymdrech i sicrhau rhagoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol, twristiaeth a hamdden.

Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad 4

CEFNDIR POLISI 5

ARGYMHELLION ADOLYGIAD BYRON 7

CRYNODEB O'R PEDWAR DEWIS POLISI 10

Adran 2 – Cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad 11

DEWISIADAU POLISI 11

Dewis 1: System Ddosbarthu Hybrid 11

Dewis 2: System BBFC well 13

Dewis 3: System PEGI well 14

Dewis 4: Cod Ymarfer Gwirfoddol 16

Dewis 5: Dulliau Gweithredu eraill 17

Adran 3 – Cwestiynau'r ymgynghoriad 18

Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Ar 6 Medi 2007, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal er mwyn helpu plant i fanteisio'n llawn ar dechnolegau rhyngrwyd a gemau fideo newydd, gan eu diogelu rhag cynnwys amhriodol neu niweidiol yn yr amgylcheddau hyn sy'n datblygu yn hynod o gyflym. Arweiniwyd yr Adolygiad gan Dr Tanya Byron, sy'n seicolegydd clinigol.

1.2 Heddiw, gall plant a phobl ifanc fanteisio ar wybodaeth ar-lein a gemau fideo yn gyflymach ac yn haws nag erioed o'r blaen. Er enghraifft, dangosodd Adroddiad Monitro Childwise 2008[1] bod 47% o fechgyn 7-10 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd i chwarae gemau fideo. Dim ond 1% o'r bobl ifanc 8-17 oed yng nghyflwyniad Ofcom i Adolygiad Byron[2] a nododd nad oeddent yn troi at y rhyngrwyd o gwbl. Er y gall gemau fideo a'r rhyngrwyd gynnig cyfleoedd dysgu newydd gwych, mae rhieni a gofalwyr yn gofidio am ddiogelwch eu plant mewn amgylchedd nad oes ganddynt fawr iawn o brofiad ohono eu hunain yn aml. Mae'r Llywodraeth yn dymuno gweithio gyda rhieni, plant, y diwydiant a'r holl fudd-ddeiliaid er mwyn gweld beth arall y mae modd ei wneud er mwyn ymateb i'r sialensiau newydd.

1.3 Amcanion Dr Byron oedd adolygu'r dystiolaeth ynghylch y risg i ddiogelwch a lles plant wrth iddynt weld deunydd niweidiol neu amhriodol ar y rhyngrwyd neu mewn gemau fideo. Ei thasg hi oedd asesu effeithiolrwydd a digonolrwydd y mesurau sy'n bodoli eisoes er mwyn helpu rhieni i ddeall a rheoli'r risg y bydd plant yn gallu troi at gynnwys amhriodol, a gwneud argymhellion ynghylch gwelliannau neu gamau gweithredu ychwanegol. Aeth yr Adolygiad ati i gasglu'r dystiolaeth gyfredol, gan ymchwilio i weithgareddau a gynhelir ynghylch ymddygiad plant ar-lein ac wrth iddynt chwarae gemau. Yna, aeth ati i archwilio effeithiolrwydd y systemau dosbarthu presennol a mecanweithiau eraill, gan ddadansoddi'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael ynghylch y risgiau a'r manteision i blant wrth iddynt weld gwahanol ddeunyddiau. Holwyd rhieni, plant, y diwydiant a nifer o bartïon eraill y mae ganddynt ddiddordeb yn y maes, am eu safbwyntiau am y materion.

1.4 Cyhoeddwyd Adolygiad Byron 'Plant Diogelach mewn Byd Digidol' ar 27 Mawrth 2008. Roedd rhan o'i chanfyddiadau yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i'r system bresennol ar gyfer dosbarthu gemau fideo.

1.5 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi argymhellion Dr Byron ynghylch diwygio'r system ddosbarthu gemau fideo, gan geisio safbwyntiau ynghylch strwythur a gweithrediad y system hon yn y dyfodol, a chan nodi pedwar dewis gwahanol er mwyn diwygio'r system. Mae'r Llywodraeth yn cynnal ymgynghoriad ynghylch y ddogfen hon ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (sylwer bod modd gweld asesiad effaith trwy droi at www.culture.gov.uk). Yn ogystal, bydd yn ystyried Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin sef *Harmful content on the Internet and in video games*, a gyhoeddwyd ar 31 Gorffennaf 2008[3]

1.6 Mae'n amlwg ei bod yn bwysig ystyried oedran plant wrth ystyried effaith cynnwys mewn gemau fideo. Mae gallu cyfyngedig plant i wahaniaethu rhwng realiti a ffantasi yn arbennig o berthnasol. Mae hyn yn fwy perthnasol wrth i'r gemau fynd yn fwyfwy realistig - nid yw *Call of Duty* yn debyg o gwbl i *Donkey Kong*, *Pac-Man* neu gemau eraill y bydd rhieni yn cofio eu chwarae pan yn blant efallai. Mae nifer o fecanweithiau yn bodoli eisoes i reoli a lleihau unrhyw risgiau posibl i blant a phobl ifanc gymaint ag y bo modd, ac er mwyn helpu i sicrhau bod plant yn chwarae gemau fideo sy'n addas i'w hoedran.

[1] Adroddiad Monitro Childwise (2007-2008): Children and their Media. Mae modd archebu copi trwy droi at www.childwise.co.uk
[2] Ofcom (2008) Cyflwyniad Ofcom i Adolygiad Byron. Ar gael trwy droi at www.ofcom.org.uk/research/telecoms/reports/byron
[3] Degfed Adroddiad, Sesiwn 2007-08, (HC 353-I). Ar gael trwy droi at www.parliament.uk

CEFNDIR POLISI

Y system ddosbarthu bresennol

1.7 Ar hyn o bryd, ceir systemau dosbarthu statudol a gwirfoddol ar gyfer gemau fideo yn y DU. Ni fydd cynhyrchwyr consolau yn caniatáu i bobl chwarae gemau ar eu peiriannau os nad oes un o'r ddau awdurdod dosbarthu wedi rhoi "dosbarthiad oedran" iddynt. Mae Dr Byron yn nodi bod y ddwy system yn rhai uchel eu parch, er y ceir gwahaniaeth sylweddol o ran eu dull gweithredu.

1.8 Mae'r system ddosbarthu statudol[4] i) yn rhoi cyngor ynghylch y cynnwys ac yn pennu dosbarthiad sy'n gysylltiedig ag oedran ar ffurf brawddeg fer, ac mae'r system hon ii) yn cael ei gorfodi wrth y pwynt gwerthu. Mae Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC), sef yr un corff sy'n pennu statws oedran yr holl ffilmiau sy'n cael eu rhyddhau yn y DU, yn gyfrifol am redeg y system ddosbarthu statudol hon. Yn ogystal, mae gan BBFC y grym i wrthod dosbarthu gemau penodol. Yn ogystal, mae'r system labelu gwybodaeth anstatudol a sefydlwyd yn wirfoddol gan y diwydiant gemau fideo yn dyfarnu dosbarthiad oedran ac yn rhoi gwybodaeth i rieni am gynnwys gemau ar ffurf pictogramau. Gelwir y cyngor gwirfoddol hwn ynghylch dosbarthiad yn system Wybodaeth Gemau Holl-Ewropeaidd (PEGI).

1.9 Gellir chwarae gemau fideo ar-lein ac all-lein. Ceir system sefydledig o reoleiddio gweithgarwch gwerthu gemau consolau a disgiau cyfrifiadurol gan fanwerthwyr. Fodd bynnag, ar ôl eu prynu, bydd gan gemau o *Nintendogs* i *World of Warcraft*, rhyw fath o gynnwys ar-lein, a fydd yn cynnwys nodweddion ychwanegol ac a fydd yn cynnig y cyfle i ryngweithio gyda chwaraewyr eraill, gan wella'r profiad o chwarae'r gêm. Mae gan rai gemau, megis *Call of Duty IV*, adrannau cyfan gwbl sy'n bodoli ar-lein yn unig, ac mae'r dull hwn o chwarae gemau yn mynd yn fwyfwy poblogaidd. Mae dosbarthu gemau ar-lein yn arwain at sialensiau penodol oherwydd i) mae ei natur yn golygu bod y gemau yn croesi ffiniau rhyngwladol, gan godi materion ehangach sy'n ymwneud â gorfodi, ii) bydd gemau ar-lein yn esblygu trwy gyfrwng Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr a Chynnwys a Gynhyrchir gan Chwaraewyr a iii) maent yn codi materion megis seiberfwlio a chyswllt/ymddygiad amhriodol a chwarae gemau i ormodedd. Gallai gemau sydd ar gael ar-lein yn unig, fod y tu allan i gwmpas unrhyw system ddosbarthu statudol. Mae gan rai gemau sy'n cael eu chwarae ar-lein, fecanweithiau a nodweddion er mwyn monitro ac adrodd ymddygiad amhriodol, ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut i leihau'r risgiau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys rheolaeth gan rieni. Yn ogystal, ceir systemau dosbarthu gwirfoddol (PEGI Online a *BBFC.online*) y gall cynhyrchwyr gemau ymrwymo iddynt. O ystyried y ffaith bod nifer fawr o gemau fideo yn cynnwys elfennau ar-lein, a bod hyn yn debygol o gynyddu dros y blynyddoedd nesaf, mae'r ffordd y byddai pob un o'r dewisiadau a gyflwynir yn y papur hwn, yn ymwneud â chwarae gemau ar-lein, yn bwysig er mwyn sicrhau bod modd datblygu system gydlynol ac ymarferol ar gyfer dosbarthu gemau ar-lein.

Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC)

1.10 Dan Ddeddf Recordiadau Fideo 1984, rhaid i BBFC ddosbarthu gemau sy'n portreadu trais, tuag at bobl neu anifeiliaid, gweithgarwch rhywiol dynol, organau cenhedlol dynol, gweithredoedd penodol y corff neu weithgarwch troseddol penodol, cyn iddynt gael eu rhyddhau yn y DU.[5] Mae'r Ddeddf yn nodi ei bod yn drosedd cyflenwi gêm o'r fath i unrhyw un dan y terfyn oedran, ac fe allai'r gosb am gyflawni'r drosedd hon fod yn ddirwy o hyd at £5000 neu hyd at 6 mis yn y carchar, neu'r ddau. Dan broses ddosbarthu BBFC, bydd archwilwyr annibynnol yn samplu pob lefel mewn gêm trwy eu chwarae, gan ystyried cyd-destun a thôn y gêm a'r gweithgarwch chwarae penodol ei hun. Yna, caiff dosbarthiad oedran ei neilltuo ar sail y niwed a'r tramgwydd posibl yng nghyd-destun y gêm. Caiff barn BBFC ynghylch yr hyn sy'n briodol neu'n amhriodol, ei seilio ar ymgynghoriadau cyhoeddus helaeth y bydd yn eu cynnal yn y DU bob ychydig flynyddoedd.

1.11 Yn ogystal, mae gan BBFC y grym i sicrhau bod deunydd niweidiol yn cael ei dynnu allan o gemau. Yn yr achosion mwyaf eithafol, lle na fyddai hyn yn ddigon, gall ddewis peidio dosbarthu gêm, gan olygu y byddai'n drosedd dan Ddeddf 1984 i werthu/cyflenwi y gêm yn y DU. Gall wneud hyn os

[4] A gynhwysir yn Neddf Recordiadau Fideo 1984

[5] Yn yr un modd â'r rhai sy'n cynnwys clipiau ffilm neu fideo (er enghraifft ar ffurf rhagluniau) nad ydynt yn rhan o'r gêm ei hun, o ganlyniad i gyfrifoldeb BBFC dros ddosbarthu'r holl waith ffilm. Yn yr achosion hyn, yn dilyn cytundeb gwirfoddol rhwng PEGI a BBFC, cyflwynir y gêm gyfan i BBFC er mwyn ei dosbarthu, os yw'r gêm ei hun yn rhan o'r cylch gwaith statudol neu beidio.

bydd o'r farn y gallai cynnwys y gêm beri niwed i ddefnyddwyr posibl neu beri niwed i gymdeithas trwy gyfrwng ymddygiad defnyddwyr posibl. Yr uchafgosb am gyflenwi deunydd annosbarthedig yw hyd at ddwy flynedd yn y carchar, dirwy anghyfyngedig neu'r ddau.

1.12 Mae system ddosbarthu BBFC yn cynnwys gweithdrefn gwyno ar gyfer y cyhoedd, ynghyd â system apêl i gyhoeddwyr a datblygwyr gemau. Mewn gwirionedd, dim ond tair gwaith er 1984 y mae BBFC wedi gwrthod dosbarthu gêm. Yn achos gêm bosibl a allai gael ei gwrthod, bydd BBFC a datblygwr neu gyhoeddwr y gêm yn cymryd rhan mewn deialog ynghylch y gêm felly, er enghraifft, bydd modd gwneud newidiadau i'r gêm, gan osgoi'r angen i'w gwrthod yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, os bydd BBFC yn gwrthod dosbarthu gêm, gall hyn arwain at gamau cyfreithiol, ynghyd â'u costau cysylltiedig. Gwelwyd hyn yn digwydd yn achos fersiwn o *Manhunt 2* a liniarwyd, lle y llwyddodd y datblygwyr i ennill apêl a wnaethpwyd i'r Pwyllgor Apeliadau Fideo (VAC). Mae VAC yn cynnwys panel o saith aelod annibynnol a benodir gan BBFC i adolygu ei benderfyniadau. Llwyddodd BBFC i herio penderfyniad VAC yn yr Uchel Lys trwy gyfrwng adolygiad barnwrol, ac o ganlyniad, anfonwyd y gêm yn ôl at VAC gyda chyfarwyddyd iddynt fynd ati eto i wneud ei benderfyniad ynghylch yr apêl, ond gan weithredu'r prawf cyfreithiol cywir. Y canlyniad terfynol oedd bod VAC wedi penderfynu cadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol gyda mwyafrif o 4 i 3. Gellir rhyddhau'r fersiwn o'r gêm a liniarwyd gyda thystysgrif 18 yn y DU.

1.13 Mae dosbarthiadau BBFC ar gyfer gemau fideo yr un fath â'r rhai ar gyfer DVDs/fideos, gydag un tystysgrif oedran (18, 15, 12, PG, U) a disgrifiad ysgrifenedig o gynnwys y gêm, e.e. 'yn cynnwys trais cymedrol', 'yn cynnwys iaith gref, rhyw a thrais a chyfeiriadau at gyffuriau' ar y deunydd pacio. Yn ogystal, ar ei wefannau, mae'n cynnig sawl paragraff byr o gyngor estynedig i ddefnyddwyr ynghylch cynnwys gemau unigol, ar gyfer rhieni.

1.14 Mae BBFC wedi dosbarthu gemau ar-lein. Mae ei gynllun cyd-reoleiddio gwirfoddol newydd - *BBFC.online* - yn berthnasol ar gyfer gemau sy'n cael eu cyflenwi trwy eu lawrlwytho, yn hytrach na gemau sy'n cael eu chwarae ar-lein, ond gallai hyn gael ei ymestyn i gemau ar-lein yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw gemau sy'n cael eu chwarae ar-lein yn unig, yn rhan o gylch gwaith Deddf Recordiadau Fideo 1984.

System Wybodaeth Gemau Holl-Ewropeaidd (PEGI)

1.15 Caiff y rhan fwyaf o'r gemau eu dosbarthu dan system Wybodaeth Gemau Holl-Ewropeaidd (PEGI). Dan y system hunanreoleiddiol wirfoddol hon ar draws Ewrop[6], bydd cynhyrchwyr gemau yn cychwyn ar y broses ddosbarthu trwy hunan-ardystio cynnwys gemau wrth lenwi holiadur manwl. Gan bod PEGI yn cael ei gweithredu yn rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd, rhaid i'r dosbarthiadau ystyried gwahanol sensitifrwydd yr holl wledydd sy'n cymryd rhan ynddi. Mae hyn yn golygu bod y dosbarthiadau a roddir yn adlewyrchu sbectrwm safbwyntiau lawer yn ehangach na'r hyn y byddai system genedlaethol, a fyddai'n ystyried sensitifrwydd yn y DU, yn ei wneud efallai. Gweinyddwyr PEGI yn y DU yw'r Cyngor Safonau Fideo (VSC), a'i nod yw hyrwyddo safonau uchel o fewn y diwydiant fideos a gemau fideo. Nid oes sail statudol ar gyfer y system ddosbarthu hon, felly mae'r dosbarthiadau yn cynnig canllaw i rieni a phlant, yn hytrach na fframwaith cyfreithiol. Nid oes cosb gyfreithiol (er enghraifft, cosb o gyflawni trosedd) am werthu gêm y mae ganddi ddosbarthiad PEGI i blentyn sy'n iau na'r oedran priodol. Fodd bynnag, os bydd codydd yn mynd ati yn fwriadol i roi gwybodaeth anghywir ynghylch gêm neu os bydd yn gweithredu mewn ffordd hynod o esgeulus, gellir gofyn iddo/iddi dalu dirwy ac fe allant gael eu gwahardd rhag defnyddio system PEGI. Os bydd cynhyrchwr gemau yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad, gall wneud hynny trwy gyfrwng system apêl PEGI. Bydd hyn yn cynnwys panel apêl annibynnol.

1.16 Mae PEGI yn neilltuo dosbarthiadau oedran yn awtomatig ar gyfer gemau plant 3+ a 7+, yn seiliedig ar yr holiaduron hunanasesu a ddarparir gan ddatblygwyr gemau ac yna, mae Netherlands Institute for the

[6] Mae llawlyfr PEGI ar gyfer codyddion a chysylltiadau yn nodi bod PEGI mewn grym yn y gwledydd Ewropeaidd canlynol: (hyd yn oed os na fydd gan yr holl wledydd hyn ddeddfwriaeth mewn grym): Awstria (yn rhannol), Gweriniaeth Tsiec, Y Ffindir, Hwngari, Gwlad Belg, Denmarc, Ffrainc, Cyprus, Estonia, Groeg, Yr Eidal, Sbaen, Gwlad yr Iâ, Latfia (deddfwriaeth wedi'i seilio ar PEGI), Malta, Iwerddon, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Gweriniaeth Slofacaidd, Sweden, Gwlad Pwyl, Slofenia, Y Swistir, Portiwgal (deddfwriaeth wedi'i seilio ar PEGI), Lwcsembwrg, y Deyrnas Unedig

Classification of Audiovisual Media (NICAM) yn cynnal archwiliad ar hap adolygol o'r gemau hynny. Gellir gweld manylion ynghylch y ffordd y bydd PEGI yn neilltuo dosbarthiadau ac yn cynnal archwiliadau yn Llawlyfr PEGI ar gyfer Codyddion, y mae fersiwn Word ar gael ar dudalen yr ymgynghoriad ar y we. Yn y DU, bydd unrhyw gemau yr ystyrir eu bod yn gemau 18+ dan system PEGI, yn cael eu cyfeirio at BBFC. Er mwyn galluogi prynwyr i wneud dewisiadau doeth ac er mwyn ceisio rhoi mwy o ystyriaeth i agweddau a sensitifrwydd cenedlaethol, mae pictogramau PEGI yn ymddangos ar bob gêm hefyd er mwyn dangos math y cynnwys, (er enghraifft, 'cynnwys rhywiol' neu 'drais'), yn ogystal â'u statws oedran. Mae Dr Byron yn nodi y ceir y teimlad bod ystyr rhai o bictogramau PEGI yn aneglur. Mae PEGI yn nodi ei bod yn adolygu'r pictogramau ar hyn o bryd, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn fwy ystyrlon i ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddio testun esboniadol o bosibl.

1.17 Mae PEGI yn sicrhau cefnogaeth eang cynhyrchwyr gemau gan bod dosbarthiadau PEGI yn cael eu cydnabod ar draws marchnad fawr, yn hytrach nag un gwlad yn unig. Os bydd cyhoeddwyr gemau yn dymuno ymuno â chynllun gwirfoddol PEGI, rhaid iddynt ymrwymo i'r Cod Ymddygiad, sy'n mynnu eu bod yn dangos y pictogramau a'r dosbarthiadau oedran cywir, eu bod yn hysbysebu mewn ffordd gyfrifol, a'u bod yn fodlon i Bwyllgor Gorfodi PEGI eu harchwilio. Mae PEGI yn gwahardd gemau rhag hysbysebu deunydd na all yr unigolyn y disgwylir iddynt chwarae'r gêm, fanteisio arnynt oherwydd eu hoedran. Os bydd cynhyrchwyr yn torri amodau'r cod hwn, gall Pwyllgor Gorfodi PEGI orchymyn camau unioni, rhoi dirwyon neu wahardd aelodau. Gan bod PEGI yn wirfoddol, nid yw'n system benodol ar gyfer un gwlad, felly er bod y system yn cael ei chydnabod yn eang, nid oes ganddi unrhyw statws cyfreithiol.

1.18 Datblygwyd PEGI Online i ymdopi â nifer cynyddol y gemau ar-lein. Yn ogystal, mae'n cynnig rhywfaint o ddiogelwch, gymaint ag y bo modd, ar gyfer y gwefannau sy'n darparu'r gemau hyn[7]. Mae PEGI yn nodi ei bod yn gweithio ar ddatblygu system ar-lein gadarn, er enghraifft, mae'n datblygu system a fyddai'n galluogi rhieni i gyfyngu gweithgarwch chwarae gemau ar-lein i wefannau a gymeradwywyd gan PEGI ac yna, yn unol â lefelau oedran a bennwyd ymlaen llaw. Ar hyn o bryd, mae logo PEGI Online yn ymddangos ar y gwefannau hynny a archwiliwyd gan VSC ac y barnwyd eu bod yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch gofynnol er mwyn diogelu pobl ifanc dan oed a'u preifatrwydd. Yn ogystal, mae disgrifiwr Online yn ymddangos ar focsys copïau caled gemau sy'n caniatáu gweithgarwch chwarae ar-lein fel rhybudd i rieni bod y gêm yn caniatáu cyswllt â'r rhyngrwyd. Ar hyn o bryd, mae PEGI Online yn cydnabod dosbarthiadau BBFC ar ei gwefan pan na cheir dosbarthiad PEGI7[7].

ARGYMHELLION ADOLYGIAD BYRON

1.19 Roedd gan Dr Byron dri phrif argymhelliad sy'n ymwneud â'r system labelu a dosbarthu sy'n berthnasol i gemau fideo:

i) Argymhellodd y dylai diwygiadau i'r system dosbarthiadau oedran yn y dyfodol, gynnwys estyniad i gynnwys gemau fideo a fyddai'n cael dosbarthiad PEGI 12+ fel arall.

ii) Argymhellodd y dylai gemau islaw dosbarthiad 12+ barhau i gael eu heithrio o drefniadau dosbarthu statudol.

iii) Argymhellodd system ddosbarthu hybrid lle y mae logos BBFC yn ymddangos ar du blaen pob gêm, a system PEGI yn parhau i ddosbarthu gemau 3+ a 7+, gyda'i logo cyfatebol ar draws yr holl ystodau oedran yn ymddangos ar gefn pob bocs.

1.20 Y cynnig a ddatblygwyd gan ddefnyddio tystiolaeth Adolygiad Byron yw bod angen system ddosbarthu statudol ar gyfer yr holl gemau 12+ neu uwch, gyda PEGI yn parhau i ddosbarthu'r holl gemau 3+ a 7+. Bydd y system hon yn gweithio orau os bydd BBFC a PEGI yn dod i gytundeb ynghylch eu logos a'u dosbarthiadau oedran fel bod modd mabwysiadu dull gweithredu mwy integredig. Yng nghynnig Dr Byron, byddai'r Llywodraeth yn ymestyn pwerau statudol BBFC i gynnwys gemau 12+, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r system ddosbarthu a ddefnyddir ar gyfer ffilmiau, a chan ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni o ystyr y dosbarthiadau hynny.

[7] Wrth ymuno â PEGI Online, rhaid i gwmnïau ymrwymo i god ymddygiad. Y bwriad yw mai dim ond gemau a ddosbarthir yn gywir o ran oedran dan system PEGI neu gemau a ddosbarthir yn gywir dan system gydnabyddedig arall e.e. BBFC neu USK, fydd yn cael eu cynnwys ar wefannau a gymeradwywyd gan PEGI Online, ac y maent wedi ymrwymo i PEGI Online.

1.21 Mae'r Llywodraeth wedi derbyn canfyddiadau Adolygiad Byron gan gydnabod nerth ac argyhoeddiad y dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae hyn yn golygu yr ystyrir bod nifer o elfennau yn hanfodol mewn unrhyw weithdrefn yn y dyfodol er mwyn dosbarthu gemau. Aeth Dr Byron ati i nodi yn eglur ei bod hi yn ffafrio'r system ddosbarthu hybrid a gynigir, gan ei bod yn teimlo mai dyma'r ffordd orau o warantu trefniadau dosbarthu digon trylwyr ar gyfer gemau 12+ er mwyn diogelu plant. Felly, y dewis hwn yw'r dewis y mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio. Fodd bynnag, roedd ei chylch gwaith hi yn ymwneud â diogelwch plant yn unig ac er mai dyma'r ystyriaeth bwysicaf, roedd yn cydnabod bod dewisiadau ac ystyriaethau eraill ar gael, ac aeth ati i argymell y dylem ymgynghori yn eang cyn dod i gasgliad pendant ynghylch dosbarthu gemau, nid y lleiaf oherwydd yr anawsterau wrth geisio dod o hyd i un system sy'n bodloni'r holl feini prawf ac sy'n gweithio ar-lein ac all-lein. Rydym yn awyddus i weld tystiolaeth ynghylch manteision y dewisiadau amgen a nodir yn y papur ymgynghori, ac unrhyw ddewisiadau eraill nas nodwyd yma, er mwyn ystyried amrediad llawn y dewisiadau sydd ar gael. Fodd bynnag, nid ydym yn debygol o fwrw ymlaen gyda dewis sy'n cynnig cryn dipyn yn llai o ddiogelwch i blant na'r dull gweithredu a gyflwynwyd gan Dr Byron.

Elfennau hanfodol system ddosbarthu newydd

1.22 Aeth Adolygiad Dr Byron ati i argymell naw elfen hanfodol unrhyw system ddosbarthu newydd ar gyfer gemau fideo. Bydd yr holl ddewisiadau a gynhwysir yn y ddogfen hon ac unrhyw rai eraill a gynigir, yn cael eu gwerthuso yn ôl pa mor agos y maent yn cydymffurfio â'r elfennau hanfodol hyn. Amlinellir yr elfennau hanfodol isod.

A) Rhaid cael set o symbolau neu labeli dibynadwy, unffurf ac eglur er mwyn categoreiddio'r dosbarthiadau oedran, gyda disgrifwyr cyfatebol sy'n esbonio cynnwys gemau.

B) Rhaid i'r grym fod ar gael i wrthod dosbarthu teitlau penodol er mwyn sicrhau na ellir eu gwerthu (neu eu cyflenwi[8]) yn y DU.

C) Rhaid sicrhau sail statudol i'r system o ddosbarthu gemau fideo ar gyfer y rhai dros 12 oed.

D) Dylai system anstatudol ar gyfer gemau i'r rhai dan 12 oed fodoli o hyd.

E) Rhaid i unrhyw system fod yn hyblyg, gan feddu ar y gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol.

F) Rhaid i'r system weithio ar gyfer y diwydiant gemau.

G) Rhaid i'r system gynorthwyo manwerthwyr.

H) Rhaid i'r system adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl.

J) Rhaid i'r Llywodraeth a'r diwydiant ystyried sut y bydd modd gweithredu'r system ar gyfer gemau ar-lein.

A) Rhaid cael set o symbolau neu labeli dibynadwy, unffurf ac eglur er mwyn categoreiddio'r dosbarthiadau oedran, gyda disgrifwyr cyfatebol sy'n esbonio cynnwys gemau.

1.23 Ar hyn o bryd, ceir dwy system wahanol sy'n rhedeg ar y cyd ac mae gwaith ymchwil Dr Byron wedi dod i'r casgliad bod hyn yn peri dryswch i rieni a phlant. Ar hyn o bryd, gall gemau feddu ar ddau ddosbarthiad oedran gwahanol gan y ddau gorff dosbarthu. Yn ogystal, darganfu'r gwaith ymchwil nad yw pobl yn gyfarwydd â phictogramau PEGI. O ystyried y ffaith mai dim ond yn 2003 y sefydlwyd y system, mae Dr Byron yn nodi nad yw hyn yn ei synnu (gweler paragraff 7.24 Adolygiad Dr Byron). Ar ôl i ni benderfynu ar y system ddosbarthu gywir, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i gyfleu gwybodaeth yn eang ynghylch y symbolau a'r labeli a ddefnyddir.

[8] Ni chynhwysir y geiriau "(neu eu cyflenwi)" yn Adolygiad Dr Byron, ond fe'u cynhwysir yma er mwyn adlewyrchu geiriad y Ddeddf Recordiadau Fideo.

B) Rhaid i'r grym fod ar gael i wrthod dosbarthu teitlau penodol er mwyn sicrhau na ellir eu gwerthu yn y DU.

1.24 Canfu Adolygiad Byron bod y cyhoedd yn cefnogi'r ffaith na fyddai modd gwerthu neu gyflenwi gêm yn gyfreithlon yn y DU os barnir y gallai cynnwys y gêm beri niwed i wylwyr posibl neu, trwy gyfrwng eu hymddygiad, i gymdeithas. Fodd bynnag, dywedodd y byddai modd adolygu'r elfen hon pan fydd rhieni yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch y system ddosbarthu[9].

C) Rhaid sicrhau sail statudol i'r system o ddosbarthu gemau fideo ar gyfer y rhai dros 12 oed.

1.25 Aeth Dr Byron ati i archwilio astudiaethau datblygiadol a oedd yn dangos bod plant o wahanol oedran ac ar wahanol gyfnodau o'u datblygiad yn rhyngweithio gyda gemau cyfrifiadurol mewn ffordd wahanol. Roedd hi'n teimlo'n arbennig o bryderus ynghylch datblygiadau ym maes technoleg gemau o ran realaeth, ac mewn gemau i'r rhai dros 12 oed, canfu symudiad tuag at gynnwys y mae angen cynnal gwerthusiad mwy soffistigedig ohono, y byddai rhieni yn dymuno ei asesu efallai cyn iddynt benderfynu a yw'n addas i blant penodol. Felly, argymhellodd y dylid newid y sail statudol ar gyfer dosbarthu er mwyn cynnwys yr holl gemau sy'n addas i bobl ifanc 12 oed a throsodd. Canfu'r Adolygiad na fyddai'r cam o osod gemau i 'oedolion' ar sail statudol yn unig yn ddigonol er mwyn hysbysu rhieni a diogelu plant. Mae'r diwydiant a manwerthwyr yn cefnogi system a fyddai'n cynyddu ymwybyddiaeth o ddosbarthiadau oedran, a'r hyder yn eu cylch, a chan sicrhau ei bod yn haws hyfforddi staff. Mae Dr Byron yn cynghori y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch yr hyn sy'n cyfateb â gêm sy'n addas i'r rhai dros 12 oed yn unig, ond mae'n rhagweld y byddai'n adlewyrchu'r dosbarthiadau sy'n bodoli eisoes yn fras. Byddai cyflwyno dosbarthiad oedran statudol 12 oed yn cynnig sawl mantais, gan gynnwys y fantais o sicrhau bod y system ddosbarthu deunydd fideo yn cyd-fynd â'r system ar gyfer ffilmiau (sy'n bwysig mewn byd cyfryngol sy'n gynyddol gyfunol)[10].

D) Dylai system anstatudol ar gyfer gemau i'r rhai dan 12 oed fodoli o hyd.

1.26 Ni chanfu'r Adolygiad unrhyw dystiolaeth o risg ynghylch dosbarthu gwirfoddol ar gyfer y rhai i blant dan 12 oed, yn wir, canfu y gallai gemau arwain at ddysgu dyfnach a helpu plant i feithrin ymdeimlad o'u hunain. Yn ogystal, nododd yr Adolygiad nad yw plant yr oedran hwn yn debygol o brynu eu gemau eu hunain. Roedd hi'n awyddus i bwysleisio manteision plant yn chwarae gemau fideo, megis gêm *Thomas the Tank Engine*, a dargedwyd i helpu plant ar y sbectrwm awtistiaeth i ddarllen emosiynau.

E) Rhaid i unrhyw system fod yn hyblyg, gan feddu ar y gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol.

1.27 Mae gemau yn newid yn gyflym ac mae'n rhaid bod y system ddosbarthu yn gallu addasu yn gyflym er mwyn adlewyrchu unrhyw risgiau newydd sy'n codi yn sgil y newidiadau hyn.

F) Rhaid i'r system weithio ar gyfer y diwydiant gemau.

1.28 Nid yw'r Llywodraeth yn dymuno rhoi baich reoleiddio anghymesur ar y diwydiant.

G) Rhaid i'r system gynorthwyo manwerthwyr.

1.29 Rhaid i'r system ddosbarthu fod yn awdurdodol, gan annog manwerthwyr i werthu gemau i unigolion o oedran priodol.

H) Rhaid i'r system adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl.

1.30 Canfu Adolygiad Byron dystiolaeth mewn astudiaethau datblygiadol bod angen system ddosbarthu statudol ar gyfer deunydd i'r rhai dros 12 oed. Rhaid i unrhyw system newydd ddangos bod hyn yn ddigon cadarn i ddiogelu pobl ifanc rhag cynnwys anaddas.

---

[9] Mae paragraff 7.22 Adolygiad Byron yn dweud "Rydw i'n llwyr werthfawrogi safbwynt y rhai nad ydynt yn cytuno â'r cam o 'wahardd' gemau fideo a chredaf y dylai oedolion gael y rhyddid i ddewis pa gemau yr hoffent eu chwarae, ar yr amod nad yw amodau cyfreithiau presennol perthnasol yn y DU, megis y Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad, yn cael eu torri. Fodd bynnag, ar yr adeg hon, pan fo angen gwella ymwybyddiaeth rhieni o'r risgiau ac o'r defnydd o'r system ddosbarthu, ac o ystyried y diffyg rheolaeth effeithiol dros gemau o'r fath mewn nifer o gartrefi, mae'n bwysig cynnal gallu y wladwriaeth i ymyrryd fel hyn ac i annog y drafodaeth. Gallai hyn fod yn rhywbeth y byddai modd ei adolygu pan fyddwn yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch y ffordd y mae rhieni yn defnyddio'r system ddosbarthu."

[10] Mae ffilmiau a ddosbarthir gan BBFC fel rhai sy'n addas ar gyfer plant 12 oed neu'n hŷn, yn cael eu cynnwys gan y dosbarthiad oedran statudol dan y Ddeddf Recordiadau Fideo, sy'n golygu ei bod yn drosedd gwerthu neu gyflenwi ffilm dosbarthiad 12 i unrhyw un sy'n iau na 12 oed.

J) Rhaid i'r Llywodraeth a'r diwydiant ystyried sut y bydd modd gweithredu'r system ar gyfer gemau ar-lein.

1.31 Wrth gynllunio system ar-lein, rhaid i'r llywodraeth a budd-ddeiliaid weithredu yn gynnar er mwyn sicrhau ein bod yn atal yr anawsterau sy'n cael eu creu gan y system ad hoc sydd wedi esblygu ar gyfer gemau sy'n cael eu chwarae gan ddefnyddio consolau neu ddisgiau cyfrifiadurol. Rhaid rhoi ystyriaeth ehangach i ymarferoldeb adlewyrchu pob system mewn amgylchedd ar-lein a'r hyn sy'n ofynnol dan system ddosbarthu ar-lein gywir gan gynnwys, er enghraifft, dosbarthu cychwynnol trylwyr a hunansafoni ymroddedig.

CRYNODEB O'R PEDWAR DEWIS

Mae'r pedwar dewis canlynol yn cyflwyno dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer system o ddosbarthu gemau fideo yn y dyfodol. Yn ogystal, ceir pumed dewis a adawyd yn agored yn fwriadol er mwyn i ymatebwyr gynnig eu safbwyntiau unigol yn ei gylch. Rydym wedi nodi materion posibl i'w hystyried a'u trafod ymhellach ar gyfer pob dewis.

Dewis 1 – System Ddosbarthu Hybrid

1.32 Byddai BBFC yn dosbarthu'r holl gemau sy'n berthnasol i'r rhai dros 12 oed yn unig, a byddai PEGI yn parhau i ddosbarthu'r holl gemau 3+ a 7+. Byddai logos BBFC yn ymddangos ar du blaen pob bocs, a byddai logos PEGI ym ymddangos ar y cefn.

1.33 Byddai BBFC yn ymestyn ei bwerau statudol i gynnwys gemau 12+, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r system ddosbarthu a ddefnyddir ar gyfer DVDs/fideos, a chan feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni o ystyr y dosbarthiadau hynny. Bydd y system hon yn gweithio orau os bydd BBFC a PEGI yn dod i gytundeb ynghylch eu logos a'u dosbarthiadau oedran er mwyn sicrhau y gellir mabwysiadu dull gweithredu mwy integredig.

Dewis 2 – System BBFC Well

1.34 BBFC fyddai'r unig gorff dosbarthu statudol ar gyfer yr holl gemau fideo, gan weithredu ei ddosbarthiadau o U i 18. Byddai'n cadw gafael ar ei bŵer i wrthod dosbarthu gemau a allai fod yn niweidiol yn ei farn ef, ar sail ei ymgynghoriadau cyhoeddus.

Dewis 3 – System PEGI Well

1.35 Corff yn y DU (Cyngor Safonau Fideo o bosibl) fyddai'r corff dosbarthu statudol dynodedig ar gyfer gemau fideo, gan weithredu dosbarthiadau PEGI, a fyddai'n orfodadwy yn ôl y gyfraith. Byddai angen i VSC (neu gorff arall o'r DU a ddewisir) ymrwymo i'r rôl newydd hwn ac unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol gofynnol. Byddai pob gêm fideo yn cael ei dosbarthu gan ddefnyddio system PEGI, a'r unig rôl i BBFC fyddai dosbarthu cynnwys ffilm, nad yw'n rhan annatod o'r gêm.[11]

Dewis 4 – Cod Ymarfer Gwirfoddol

1.36 Ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth, felly byddai BBFC a PEGI yn parhau i ddosbarthu gemau fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddai'r system labelu a dosbarthu ddeuol gyfredol yn parhau i fodoli. Yna, byddai'r Llywodraeth yn gofyn i fanwerthwyr a chyflenwyr ymrwymo i God Ymarfer gwirfoddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r system ddosbarthu wrth werthu/cyflenwi gemau fideo i blant 12 oed neu'n hŷn, er na fyddai trosedd statudol yn cael ei chyflawni os byddent yn torri amodau'r Cod. Byddai'r Cod Ymarfer hwn yn canolbwyntio ar ddosbarthu, diogelu defnyddwyr ac addysgu defnyddwyr, a byddai'n dilyn y canllawiau a amlinellwyd yn yr Adolygiad. Ni fyddai sail statudol y system ddosbarthu yn cael ei hymestyn ar gyfer gemau 12+ ond byddai'r cynnig hwn yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth wirfoddol, a system arfer da y cytunwyd arni.

[11] Byddai hyn yn wahanol i'r cytundeb gwirfoddol a weithredir gan PEGI a BBFC ar hyn o bryd, y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn nhroednodyn 5

Adran 2 – Cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad

DEWISIADAU POLISI

2.1 Mesurir y dewisiadau canlynol yn erbyn meini prawf hanfodol Dr Byron, gan ystyried y goblygiadau ar gyfer gemau mewn bocs (disgiau) yn gyntaf, yna'r goblygiadau ar gyfer gemau ar-lein. Wrth ystyried y dewisiadau, mae'n bwysig ystyried pa ddulliau gorfodi, os o gwbl, fyddai'n briodol er mwyn sicrhau y gall hyn weithio mewn gwirionedd.

2.2 Mae'r Llywodraeth yn dymuno i reolyddion a budd-ddeiliaid allweddol o'r diwydiant i ymateb mewn ffordd adeiladol a chydweithredol i'r broses ymgynghori, gan gynnig ymatebion defnyddiol i'r dewisiadau a nodir isod. Bydd dull gweithredu o'r fath yn helpu'r Llywodraeth i ddod o hyd i ateb pragmatig ac ymarferol er mwyn cyflawni'r nod pennaf, sef diogelu plant.

Dewis 1: System Ddosbarthu Hybrid

Y cynnig

Byddai BBFC yn dosbarthu'r holl gemau 12+ neu uwch, gan werthuso'r cynnwys a'r cyd-destun. Byddai PEGI yn parhau i ddosbarthu'r holl gemau 3+ a 7+. Byddai logos BBFC yn ymddangos ar du blaen pob bocs, a byddai logos PEGI yn ymddangos ar y cefn.

Bydd y system hon yn gweithio orau os bydd BBFC a PEGI yn dod i gytundeb ynghylch eu logos a'u dosbarthiadau oedran, er mwyn sicrhau y gellir mabwysiadu dull gweithredu mwy integredig. Byddai deddfwriaeth newydd yn ymestyn cylch gwaith BBFC i ddosbarthu gemau 12+ ac uwch, gan sicrhau bod y system yn cyd-fynd â'r system ddosbarthu a ddefnyddir ar gyfer DVDs/fideos, a ddeallir yn eang.

A) Rhaid cael set o symbolau neu labeli dibynadwy, unffurf ac eglur er mwyn categoreiddio'r dosbarthiadau oedran, gyda disgrifwyr cyfatebol sy'n esbonio cynnwys gemau.

2.3 Cynigiodd Dr Byron y dylai symbolau BBFC barhau i ymddangos ar du blaen bocs pob gêm ac y dylai symbolau PEGI ymddangos ar y cefn, ar gyfer pob dosbarthiad oedran. Byddai hyn yn cyfrannu at system labelu BBFC - sy'n cael ei chydnabod yn ehangach yn y DU ar hyn o bryd - gan gyflwyno rhieni, plant a phrynwyr gemau i logos PEGI ar yr un pryd, a ddefnyddir yng ngweddill Ewrop ac ar gyfer gemau ar-lein.

2.4 Ar hyn o bryd, nid yw dosbarthiadau oedran PEGI a BBFC yn defnyddio'r un oedrannau yn union: er enghraifft, mae BBFC yn defnyddio 15, yn yr un modd â dosbarthiadau ffilmiau, ac mae PEGI yn defnyddio 16. Mae dosbarthiadau oedran PG a U yn cyfateb yn fras ag 8 oed a 4 oed, sy'n wahanol i 7+ a 3+ PEGI. Fodd bynnag, mewn gwledydd Ewropeaidd eraill (mae Portiwgal yn un enghraifft), mae system PEGI wedi bod yn ddigon hyblyg i newid yr union oedran a ddefnyddir er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau lleol.

2.5 Mae PEGI a BBFC yn dosbarthu gemau mewn gwahanol ffyrdd. Nid oes modd trosi dosbarthiadau oedran a roddir gan un system i system ddosbarthu y llall o anghenraid. Os yw dosbarthiadau BBFC a PEGI yn mynd i ymddangos ar du blaen ac ar gefn y bocs, gallai hyn arwain at wahanol gyfyngiadau oedran yn ymddangos ar ddeunydd pacio yr un gêm, gan beri dryswch i rieni. Un ffordd

o ddelio â'r broblem hon fyddai cael labeli priodolrwydd oedran ar focsys lle y mae'r ddau awdurdod dosbarthu wedi dod i'r un casgliad, ond dim ond symbol BBFC pan fo'r ddau yn anghytuno. Byddai pictogramau PEGI yn ymddangos ar gefn y bocs o hyd gan sicrhau rhywfaint o gysondeb. Yn ogystal, byddai modd cynnwys dosbarthiad oedran PEGI ar y disg yn y bocs. Cynhelir trafodaeth bellach ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar ddosbarthiad 12+ ar ddiwedd y ddogfen hon.

B) Rhaid i'r grym fod ar gael i wrthod dosbarthu teitlau penodol er mwyn sicrhau na ellir eu gwerthu yn y DU.

2.6 Mae BBFC yn meddu ar yr holl systemau a phrosesau i ddelio â hyn yn barod, a byddai'n cadw gafael ar ei bŵer i wrthod dosbarthu teitlau penodol. Mae'r ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhelir gan BBFC wrth iddo baratoi ei ganllawiau yn bwysig er mwyn sicrhau bod y rheolau ynghylch yr hyn y dylid ei wrthod, yn cyd-fynd â'r hyn sy'n dderbyniol i'r cyhoedd.

C) Rhaid sicrhau sail statudol i'r system o ddosbarthu gemau fideo ar gyfer y rhai dros 12 oed.

2.7 Dan y system hybrid, byddai'r Llywodraeth yn ymestyn pwerau dosbarthu statudol BBFC i gynnwys yr holl gemau y rhoddir dosbarthiadau 12, 15 a 18 iddynt.

D) Dylai system anstatudol ar gyfer gemau i'r rhai dan 12 oed fodoli o hyd.

2.8 Byddai PEGI yn parhau i ddosbarthu gemau ar gyfer plant iau.

E) Rhaid i unrhyw system fod yn hyblyg, gan feddu ar y gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol.

2.9 Yn yr un modd â'r holl dechnolegau digidol, mae'r diwydiant gemau fideo mewn cyfnod o newid a datblygiad cyflym. Er y gallwn reoleiddio ar gyfer y cyfnod hwn, lle y gwerthir y rhan fwyaf o'r gemau dros y cownter, nid yw'n eglur iawn pa drywydd y bydd y diwydiant yn ei ddilyn yn y dyfodol. Gallai symud tuag at fwy o gyfuno cynnwys ffilmiau a gemau, lle y byddai BBFC gyda'i rôl deuol mewn sefyllfa well i wneud penderfyniad ynghylch dosbarthu efallai. Neu, gallai gemau fideo gael eu marchnata a'u gwerthu ar-lein yn gynyddol, ac mae hyn yn arwain at broblemau o ran gorfodi.

F) Rhaid i'r system weithio ar gyfer y diwydiant gemau.

2.10 Yr unig ffordd y byddai hyn yn wahanol i'r system gyfredol yw y byddai rhagor o deitlau yn cael eu dosbarthu gan BBFC. Rydym yn disgwyl i BBFC a'r diwydiant gemau i gynnig adborth ynghylch sut y gallai hyn weithio.

G) Rhaid i'r system gynorthwyo manwerthwyr.

2.11 Mae'r Gymdeithas Manwerthwyr Adloniant yn parhau i gefnogi awgrymiadau Dr Byron ac mae wedi nodi y bydd manwerthwyr yn cefnogi unrhyw system sy'n eglur ac sy'n cael ei chyfleu yn gywir i'r defnyddiwr (a'i deall ganddo). Byddai angen i PEGI a BBFC gydweithio i atal unrhyw ddryswch ymysg defnyddwyr.

H) Rhaid i'r system adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl.

2.12 Trwy gyflwyno'r oedran statudol newydd, sef 12 oed, mae'r system hon yn cyd-fynd yn agos â'r dystiolaeth a ganfuwyd gan Dr Byron yn ystod ei Hadolygiad. Unwaith eto, mae gallu BBFC i adlewyrchu sensitifrwydd yn y DU yn bwysig yma.

J) Rhaid i'r Llywodraeth a'r diwydiant ystyried sut y bydd modd gweithredu'r system ar gyfer gemau ar-lein.

2.13 Yn unol ag argymhelliad Dr Byron, os byddai'r cynnig hwn yn cael ei ddewis, byddai'r un rhaniad o ran llafur yn berthnasol i'r amgylchedd ar-lein. Byddai BBFC yn dosbarthu popeth 12+ a byddai PEGI yn dosbarthu popeth dan yr oedran hwnnw. Yna, byddai'r ddwy set o symbolau yn cael eu defnyddio ar system PEGI Online. Yn yr un modd â dosbarthu gemau mewn bocs, byddai angen dull gweithredu ar y cyd rhwng systemau BBFC a PEGI ar gyfer y dewis hwn. Ceir anawsterau posibl o

ran gwefannau gemau sy'n cael eu lletya mewn rhannau arall o Ewrop, y tu allan i'r DU, a fyddai'n dymuno cynnwys symbolau PEGI yn unig efallai.

2.14 Mae'n debygol y bydd system ddosbarthu PEGI Online yn datblygu i fod yn safon dosbarthu ar-lein Ewropeaidd pwysig yn y dyfodol, a allai beri dryswch i rieni os mai'r prif symbolau a welir yn y DU yw rhai BBFC, ac os byddant yn prynu gêm gan ffynhonnell nad yw'n dod o'r DU. Fodd bynnag, os byddai system hybrid yn cael ei chyflwyno yn y DU, byddai gan rieni brofiad o'r ddwy set o symbolau yn barod.

2.15 Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai fod modd datblygu effeithiolrwydd y system ddosbarthu ar-lein ymhellach. Disgwyliwn i BFC a PEGI i ystyried y mater hwn, a'n hysbysu sut y byddai modd cyflawni hyn yn eu barn nhw.

Dewis 2: System BBFC Well

Y cynnig

BBFC fyddai'r corff dosbarthu statudol ar gyfer yr holl gemau fideo, gan weithredu ei ddosbarthiadau o U i 18. Byddai'n cadw gafael ar ei bŵer i wrthod dosbarthu gemau a allai fod yn niweidiol yn ei farn ef, ar sail ei ymgynghoriadau cyhoeddus.

A) Rhaid cael set o symbolau neu labeli dibynadwy, unffurf ac eglur er mwyn categoreiddio'r dosbarthiadau oedran, gyda disgrifwyr cyfatebol sy'n esbonio cynnwys gemau.

2.16 Byddai'r dewis hwn yn golygu un set o symbolau yn unig ar gyfer yr holl gemau fideo. Byddai hon yn system symlach i ddefnyddwyr a'r diwydiant yn y DU, ond gallai'r gwahaniaethau ar draws Ewrop gymhlethu'r sefyllfa os byddai rhywun yn prynu gemau o rywle arall. **Mae gennym ddiddordeb mewn cael gwybod a oes tystiolaeth yn bodoli a allai gefnogi neu wrthbrofi hyn.** Mantais defnyddio labeli BBFC yw bod rhieni yn eu deall yn barod yng nghyd-destun dosbarthu ffilmiau. Mae hyn yn golygu bod y system yn fwy eglur na system hybrid. Yn ogystal, mae'n ystyried sensitifrwydd yn y DU gan bod BBFC yn seilio'i farn ar werthoedd cyhoeddus y DU. Un o fanteision y system hon yw y byddai'n osgoi'r broblem o wahanu cynnwys ffilm a chynnwys gemau oherwydd y byddai'r un corff yn asesu'r ddau, gan ddefnyddio meini prawf tebyg.

B) Rhaid i'r grym fod ar gael i wrthod dosbarthu teitlau penodol er mwyn sicrhau na ellir eu gwerthu yn y DU.

2.17 Mae gan BBFC yr holl systemau a'r prosesau mewn grym er mwyn delio â hyn yn barod, a byddai'n cadw gafael ar ei bŵer i wrthod teitlau penodol. Mae'r ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhelir gan BBFC wrth iddo baratoi ei ganllawiau yn bwysig er mwyn sicrhau bod y rheolau ynghylch yr hyn y dylid ei wrthod, yn cyd-fynd â'r hyn sy'n dderbyniol i'r cyhoedd.

C) Rhaid sicrhau sail statudol i'r system o ddosbarthu gemau fideo ar gyfer y rhai dros 12 oed.

2.18 Byddai BBFC yn ymestyn ei gylch gwaith statudol i ddosbarthu'r holl gemau fideo sy'n addas i blant 12 oed a throsodd.

D) Dylai system anstatudol ar gyfer gemau i'r rhai dan 12 oed fodoli o hyd.

2.19 Yn ogystal, byddai BBFC yn cyflawni'r rôl o ddosbarthu gemau ar gyfer plant dan 12 oed. Byddai hyn yn golygu ehangu ei rôl cyfredol.

E) Rhaid i unrhyw system fod yn hyblyg, gan feddu ar y gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol.

2.20 Mae gan y system hon y fantais o fod yn gyson o ran cyfuno ffilmiau a gemau fideo. Fodd bynnag, byddai'r system yn y DU yn wahanol i'r system a ddefnyddir mewn nifer o wledydd Ewropeaidd ac mewn gwledydd eraill.

F) Rhaid i'r system weithio ar gyfer y diwydiant gemau.

2.21 Gallai rhai yn y diwydiant gemau ofidio ynghylch y costau ychwanegol a fyddai'n codi o ymrwymo pob gêm i gynllun BBFC, gan bod y rhan fwyaf o ddatblygwyr yn debygol o barhau i gymryd rhan yn system wirfoddol PEGI. Byddai angen i'r diwydiant gemau a BBFC gydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod y broses o newid i'r system newydd yn digwydd mewn ffordd mor esmwyth ag y bo modd.

G) Rhaid i'r system gynorthwyo manwerthwyr.

2.22 Byddai'r system hon yn caniatáu i fanwerthwyr ddilyn arferion a threfniadau hyfforddi staff sy'n bodoli eisoes er mwyn gwerthu DVD/fideos dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r Gymdeithas Manwerthwyr Adloniant wedi datgan y bydd manwerthwyr yn cefnogi unrhyw system ar yr amod ei bod yn eglur ac yn cael ei chyfleu yn gywir i'r defnyddiwr (a bod y defnyddiwr yn ei deall).

H) Rhaid i'r system adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl.

2.23 Trwy gyflwyno rheolau statudol o 12+, mae'r dewis hwn yn dilyn argymhellion Byron. Yn ogystal, mae'n cynnwys y gallu i ystyried sensitifrwydd cenedlaethol gan bod ei ganllawiau yn ystyried canlyniadau ei ymgynghoriadau cyhoeddus.

J) Rhaid i'r Llywodraeth a'r diwydiant ystyried sut y bydd modd gweithredu'r system ar gyfer gemau ar-lein.

2.24 Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer deunydd i'w lawrlwytho y defnyddir *BBFC.online*, nid ar gyfer gemau y maent yn rhai hollol ar-lein. Byddai trosi'r system hon i amgylchedd ar-lein yn golygu y byddai'n rhaid i BBFC ymestyn ei waith i gynnwys gemau ar-lein. Gallai BBFC barhau i weithio gyda PEGI Online, gyda dosbarthiad BBFC yn ymddangos ar wefannau yn y DU. Mae natur ryngwladol gweithgarwch chwarae gemau ar-lein yn golygu y byddai hyn yn anodd i'w orfodi ar wefannau nad ydynt yn wefannau o'r DU.

2.25 Ar gyfer gemau ar-lein, gallai defnyddio logos BBFC cydnabyddedig yn unig rymuso rhieni i wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd ar-lein anghyfarwydd. Fodd bynnag, newydd gychwyn y mae cynllun BBFC. Mae PEGI Online wedi cael ei sefydlu eisoes yn y gwledydd y cyfeiriwyd atynt yn nhroednodyn 6. **Byddai gennym ddiddordeb mewn gweld tystiolaeth sy'n dangos a fyddai hynny yn arwain at faich ychwanegol i ddatblygwyr gemau ar-lein, ac a fyddai hyn yn peri dryswch i rieni.** Efallai y byddai datblygwyr ar-lein yn croesawu'r ymddiriedaeth ychwanegol sydd gan rieni yn system ddosbarthu adnabyddus BBFC, gan gefnogi'r cynnig am y rheswm hwnnw.

2.26 O ran gweithgarwch chwarae gemau ar-lein, mae treialon wedi dangos bod y diwydiant yn cefnogi cynllun dosbarthu gwirfoddol. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, byddai'n rhaid iddo gynnwys cymaint o ddatblygwyr ag y bo modd.

Dewis 3: System PEGI Well

Y cynnig

Byddai sefydliad yn y DU (Cyngor Safonau Fideo o bosibl) yn cyflawni rôl y corff dosbarthu statudol dynodedig ar gyfer gemau fideo, gan weithredu dosbarthiadau PEGI, a fyddai'n orfodadwy yn ôl y gyfraith. Byddai angen i VSC (neu gorff arall o'r DU a ddewisir) ymrwymo i'r rôl newydd hwn ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Byddai pob gêm fideo yn cael ei dosbarthu gan ddefnyddio system PEGI. Os byddai gemau fideo yn cynnwys rhywfaint o gynnwys ffilm hefyd, nad yw'n rhan annatod o'r gêm, byddai BBFC yn dosbarthu'r cynnwys ffilm. Byddai hyn yn golygu diwygio Deddf Recordiadau Fideo 1984 er mwyn dynodi'r corff newydd a ddewisir yn gorff dosbarthu gemau fideo statudol yn lle BBFC.

A) Rhaid cael set o symbolau neu labeli dibynadwy, unffurf ac eglur er mwyn categoreiddio'r dosbarthiadau oedran, gyda disgrifwyr cyfatebol sy'n esbonio cynnwys gemau.

2.27 Byddai'r dewis hwn yn golygu un set o symbolau yn unig ar gyfer yr holl gemau fideo, a fyddai'n haws i ddefnyddwyr ac i'r diwydiant ar draws Ewrop. Ar hyn o bryd, mae system PEGI yn adolygu ei phictogramau er mwyn sicrhau eu bod yn fwy ystyrlon. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dewis hwn yn gweithio, gan nad yw defnyddwyr yn y DU yn ymwybodol iawn o'r pictogramau cyfredol, ac nid ydynt yn eu deall yn dda ychwaith. Byddai modd cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd ac addysgu er mwyn delio â hyn.

Fodd bynnag, byddai BBFC yn parhau i gyflawni'r rôl o ddosbarthu cynnwys ffilm a fideo, felly byddai angen dau symbol ar gyfer gemau mewn bocs sy'n cynnwys y ddau. Mae cwestiwn 43 yn y ddogfen hon yn cyfeirio at y mater hwn.

B) Rhaid i'r grym fod ar gael i wrthod dosbarthu teitlau penodol er mwyn sicrhau na ellir eu gwerthu yn y DU.

2.28 Gan ddefnyddio system PEGI, byddai angen sicrhau bod y gallu yn bodoli i wrthod teitlau, nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai angen i VSC (neu gorff arall o'r DU a ddewisir) feddu ar y pŵer statudol i wrthod teitlau penodol yn yr un modd ag y mae BBFC yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddai hyn yn golygu y byddai'r corff yn gweithredu fel dosbarthwr ynddo'i hun, nid fel asiant ar gyfer PEGI yn unig. Yn ogystal, efallai y byddai'n rhaid iddo gyflawni swyddogaeth apêl ar gyfer cyhoeddwyr (mewn model tebyg i system gyfredol BBFC) a sicrhau bod y dosbarthiadau a'r penderfyniadau a wneir ganddo yn cyd-fynd â barn y cyhoedd (mewn ffordd sy'n debyg i'r ffordd y mae ymgynghoriadau cyhoeddus BBFC yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ei ganllawiau). Yn ogystal, ceir cwestiwn ynghylch a fyddai VSC yn meddu ar yr adnoddau i gyflawni'r rôl hwn.

C) Rhaid sicrhau sail statudol i'r system o ddosbarthu gemau fideo ar gyfer y rhai dros 12 oed.

2.29 Nid oes gan y system PEGI gyfredol unrhyw sail statudol, felly byddai'n rhaid i VSC neu gorff arall o'r DU a ddewisir, fod yn barod i fabwysiadu'r cyfrifoldeb statudol dros ddosbarthu'r holl gemau gyda dosbarthiad 12+ a'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol er mwyn sefydlu'r rôl a'r system newydd hon.

D) Dylai system anstatudol ar gyfer gemau i'r rhai dan 12 oed fodoli o hyd.

2.30 Byddai PEGI yn parhau i ddosbarthu gemau ar gyfer y rhai dan 12 oed.

E) Rhaid i unrhyw system fod yn hyblyg, gan feddu ar y gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol.

2.31 Mae PEGI yn defnyddio'r un symbolau ar-lein ac all-lein, a hefyd, caiff ei mabwysiadu ar draws nifer o wledydd yn Ewrop, felly ar lefel fyd-eang, efallai y bydd datblygwyr yn ceisio cymeradwyaeth PEGI er mwyn iddynt allu manteisio ar farchnadoedd mawr. Mae'r diwydiant gemau mewn cyfnod o newid a datblygiad hynod o gyflym; mae'n debygol y bydd gemau yn symud i lwyfan ar-lein yn gynyddol, lle y byddai un system ddosbarthu o fantais amlwg i ddefnyddwyr, datblygwyr gemau a manwerthwyr.

F) Rhaid i'r system weithio ar gyfer y diwydiant gemau.

2.32 Mae'r diwydiant gemau wedi mynegi cefnogaeth gref i'r system hon, a byddai'r rhan fwyaf o gemau wedi cael dosbarthiad PEGI ta beth er mwyn eu gwerthu mewn nifer o wledydd Ewropeaidd eraill. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i gynhyrchion mewn bocs gyda chynnwys ffilm a gêm fideo gael eu dosbarthu gan systemau PEGI a BBFC.

G) Rhaid i'r system gynorthwyo manwerthwyr.

2.33 Byddai'r system hon yn golygu gwahanol ddosbarthiadau ar gyfer gemau fideo a ffilmiau, gyda'r posibilrwydd y byddai dryswch yn codi gyda chynhyrchion mewn bocs sy'n cynnwys y ddau. Mae'r Gymdeithas Manwerthwyr Adloniant wedi datgan y bydd manwerthwyr yn cefnogi unrhyw system ar yr amod ei bod yn eglur ac yn cael ei chyfleu yn gywir i'r defnyddiwr (a bod y defnyddiwr yn ei deall).

H) Rhaid i'r system adlewyrchu'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl.

2.34 Nododd Dr Byron bod dulliau dosbarthu BBFC a PEGI yn adlewyrchu risg niwed posibl yn fras. Fodd bynnag, gellir dadlau na fyddai system a gynlluniwyd i gael ei gweithredu ar draws amrywiaeth eang o wledydd Ewropeaidd, yn adlewyrchu sensitifrwydd cenedlaethol y cyhoedd yn y DU yn llawn. Byddai modd delio â hyn trwy gyfrwng y systemau y byddai angen i gorff statudol y DU eu gweithredu.

J) Rhaid i'r Llywodraeth a'r diwydiant ystyried sut y bydd modd gweithredu'r system ar gyfer gemau ar-lein.

2.35 PEGI Online yw'r dull o ddosbarthu gemau ar-lein mewn nifer o wledydd Ewropeaidd, felly mae'r cynnig hwn wedi cael ei drosi i'r amgylchedd ar-lein yn barod. Un o fanteision y system hon ar gyfer y dyfodol yw bod rheoleiddio gemau trwy gyfrwng corff gwirfoddol, wrth i'r gemau ddatblygu yn gyflymach, yn sicrhau cefnogaeth y diwydiant. Mewn cyfathrebiad ar 22 Ebrill 2008, nododd y Comisiwn Ewropeaidd ei bod yn 'ymddangos bod PEGI wedi sicrhau canlyniadau da a bod PEGI Online yn fenter addawol hefyd, gan olygu bod PEGI yn enghraifft dda o hunanreoleiddio, yn unol â'r agenda rheoleiddio gwell'.

2.36 Yn yr un modd â gemau mewn bocs, mae'r diwydiant gemau ar-lein yn debygol o gefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn cael ei gydnabod ar draws y rhan fwyaf o'r gwledydd yn Ewrop, felly mae'n cynnig y cyfle i fanteisio ar farchnadoedd mwy. **Byddai o gymorth cael gwybod a fydd hyn yn effeithio ar benderfyniad datblygwyr gemau y tu allan i Ewrop[12] megis y rhai yn Japan neu UD, i fanteisio ar y farchnad yn y DU ac i ba raddau y byddai'r newid hwn yn effeithio arnynt.** Mae PEGI Online eisoes yn datblygu ei wasanaeth hidlo, a allai helpu rhieni i deimlo'n ddiogel wrth ganiatáu i blant iau chwarae ar-lein mewn amgylchedd diogel.

2.37 I ryw raddau, byddai hyn yn osgoi y materion sy'n codi o gael dwy system ddosbarthu gemau mewn amgylchedd ar-lein, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd, er bod cwestiwn yn codi ynghylch y rhaniad rhwng gemau a ffilm a phwy sy'n gyfrifol am eu dosbarthu.

Dewis 4 – Cod Ymarfer Gwirfoddol

Y cynnig

Ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth, felly byddai BBFC a PEGI yn parhau i ddosbarthu gemau fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddai'r system labelu a dosbarthu ddeuol gyfredol yn parhau i fodoli. Yna, byddai'r Llywodraeth yn gofyn i fanwerthwyr a chyflenwyr ymrwymo i God Ymarfer gwirfoddol[13] er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r system ddosbarthu yn ôl oedran wrth iddynt werthu/cyflenwi gemau fideo i blant 12 oed neu'n hŷn, er na fyddai trosedd statudol yn cael ei chyflawni os byddent yn torri amodau'r Cod. Byddai'r Cod Ymarfer hwn yn canolbwyntio ar ddosbarthu, diogelu defnyddwyr ac addysgu defnyddwyr, a byddai'n dilyn y canllawiau a amlinellwyd yn yr Adolygiad. Mae manwerthwyr yn debygol o gydymffurfio â Chod Ymarfer ar gyfer y diwydiant cyfan. Ni fyddai sail statudol y system ddosbarthu yn cael ei hymestyn ar gyfer gemau 12+ ond byddai'r cynnig hwn yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth wirfoddol, a system arfer da y cytunwyd arni.

A) Rhaid cael set o symbolau neu labeli dibynadwy, unffurf ac eglur er mwyn categoreiddio'r dosbarthiadau oedran, gyda disgrifwyr cyfatebol sy'n esbonio cynnwys gemau.

2.38 Byddai'r system labelu a dosbarthu ddeuol gyfredol yn parhau i fodoli, felly byddai'r materion cyfredol a amlygwyd gan Dr Byron yn digwydd o hyd. Ni fyddai unrhyw newid yn cael ei wneud i'r system labelu, ond byddai manwerthwyr yn cael eu hannog i werthu gemau yn unol â'u dosbarthiad oedran, nid y dosbarthiadau oedran statudol yn unig. Fodd bynnag, byddai gwybodaeth bellach i ddefnyddwyr ac arfer gorau gan fanwerthwyr a'r diwydiant yn cefnogi'r Cod, felly byddai prynwyr gemau yn fwy ymwybodol o'r ddwy system wahanol a sut y maent yn gweithio.

J) Rhaid i'r grym fod ar gael i wrthod dosbarthu teitlau penodol er mwyn sicrhau na ellir eu gwerthu yn y DU.

2.39 Byddai hyn yn parhau i weithredu yn yr un modd ag y mae'n cael ei weithredu trwy BBFC ar hyn o bryd.

[12] Mae hyn yn cynnwys serfwyr o'r tu allan i Ewrop, yn ogystal â chwmnïau sy'n dod i Ewrop gan sefydlu gwasanaethau gemau ar-lein yma.
[13] Dylid nod bod gan VSC God Ymarfer yn barod, sy'n berthnasol i'w aelodau ac sy'n cael ei gynorthwyo gan ystod o ddeunyddiau hyfforddi ac arddangos. Mae aelodau'r Gymdeithas Manwerthwyr Adloniant yn cefnogi'r Cod ac mae VSC yn amcangyfrif bod manwerthwyr sy'n gyfrifol am werthu tua 90% o'r gemau fideo a werthir, wedi tanysgrifio iddo.

C) Rhaid sicrhau sail statudol i'r system o ddosbarthu gemau fideo ar gyfer y rhai dros 12 oed.

2.40 Ni fyddai'r system hon yn darparu sail statudol ar gyfer dosbarthu gemau sy'n addas i blant 12 oed a throsodd. Fodd bynnag, trwy gyhoeddi Cod Ymarfer gwirfoddol, gallai manwerthwyr gyfleu neges gadarn i rieni ynghylch pwysigrwydd y system ddosbarthiadau. Heb y pwerau statudol y mae Dr Byron yn gofyn amdanynt, fodd bynnag, efallai na fyddai rhieni a rhai cyflenwyr yn cymryd Cod Ymarfer gwirfoddol o ddifrif.

D) Dylai system anstatudol ar gyfer gemau i'r rhai dan 12 oed fodoli o hyd.

2.41 Byddai'r system gyfredol sy'n cynnwys trefniant dosbarthu anstatudol ar gyfer gemau sy'n addas i blant dan 12 oed, yn parhau.

E) Rhaid i unrhyw system fod yn hyblyg, gan feddu ar y gallu i ddelio â sefyllfaoedd yn y dyfodol.

2.42 Mae hon yn system wirfoddol ac o'r herwydd, mae'n hyblyg ac fe allai ymateb yn gyflymach i weithgarwch cyfuno cyfryngau a datblygiadau technolegol newydd na system wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, gallai diffyg sail statudol olygu na fyddai'r system hon yn cael ei gorfodi. Gallai'r symudiad at werthu gemau ar y Rhyngrwyd, lle y gall manwerthwyr gael eu lleoli mewn unrhyw wlad ac na fyddai'n rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer ar gyfer y DU, olygu na fyddai'r system hon yn gallu ymdopi â'r sefyllfa yn dda yn y dyfodol.

F) Rhaid i'r system weithio ar gyfer y diwydiant gemau.

2.43 Byddai gemau'r diwydiant gemau yn parhau i gael eu dosbarthu fel ag y maent ar hyn o bryd. Byddai'r diwydiant yn croesawu Cod Ymarfer, gan gynnwys cyhoeddusrwydd ynghylch y system ddosbarthu, gan y byddai'n dwyn sylw at y ffaith eu bod yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol wrth ddosbarthu gemau.

G) Rhaid i'r system gynorthwyo manwerthwyr.

2.44 **Mae'r system yn gofyn i fanwerthwyr weithredu'r Cod ar lefel ymarferol, felly byddai croeso arbennig i'w safbwyntiau nhw ynghylch hyn.** Mae nifer o fanwerthwyr yn defnyddio arfer gorau yn barod, fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer VSC, felly efallai na fyddai hyn yn newid sylweddol iddynt.

H) Rhaid i'r system adlewyrchu dystiolaeth ynghylch niwed posibl.

2.45 Byddai'r Cod Ymarfer gwirfoddol yn cryfhau'r system bresennol, gan roi pwyslais ar bwysigrwydd terfynau oedran. Fodd bynnag, gan mai cod gwirfoddol yw hwn, efallai na fyddai'n effeithio ar ymddygiad prynwyr gemau fideo heb y gefnogaeth statudol ar gyfer 12+.

J) Rhaid i'r Llywodraeth a'r diwydiant ystyried sut y bydd modd gweithredu'r system ar gyfer gemau ar-lein.

2.46 Gallai'r cynnig hwn, a fyddai'n cael ei redeg gan fanwerthwyr yn y DU, fod yn anodd i'w drosi i'r amgylchedd chwarae gemau ar-lein, o ganlyniad i natur ryngwladol y farchnad gwerthu gemau a'r farchnad chwarae gemau ar-lein. Efallai na fyddai unrhyw gymhelliant go iawn i fanwerthwyr o'r tu allan i'r DU ymrwymo i'r Cod.

Dewis 5: Dulliau Gweithredu Eraill

2.47 Mae'r Llywodraeth wedi nodi'r pedwar dewis uchod er mwyn rhoi ffocws i'r ymatebion a wneir i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn clywed am unrhyw atebion amgen. Gallai'r rhain fod yn ddiwygiad i un o'r dewisiadau presennol, neu gallent fod yn ddewis hollol newydd. Mesurir unrhyw ateb yn erbyn yr elfennau allweddol a amlinellwyd gan Dr Byron, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol ac UE. Rhaid i gorff o'r DU gyflawni rôl yr awdurdod statudol. Rhaid i unrhyw ateb amgen ddangos cefnogaeth eang budd-ddeiliaid allweddol.

Adran 3 – Cwestiynau'r ymgynghoriad

Estynnir gwahoddiad i chi wneud sylwadau am unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori hon. Fodd bynnag, efallai y bydd o ddefnydd i chi droi at y cwestiynau isod, sy'n delio â'r prif bwyntiau y byddem yn croesawu safbwyntiau yn eu cylch yn arbennig. Dylai'ch ymateb fod mor benodol a manwl ag y bo modd.

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 31 Gorffennaf 2008 ac 20 Tachwedd 2008

Sut i ymateb

Mae modd ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein trwy droi at: gamesclassification@culture.gov.uk neu gallwch anfon eich copi caled at:

VIDEO GAMES CLASSIFICATION
DEPARTMENT FOR CULTURE, MEDIA AND SPORT
2-4 COCKSPUR STREET
LONDON SW1Y 5DH

Cwestiynau am ddewisiadau penodol

Mae'r Llywodraeth yn dymuno cael atebion ynghylch agweddau penodol ar y dewisiadau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori.

Dewis 1 System ddosbarthu hybrid

Byddai BBFC yn dosbarthu'r holl gemau 12+ neu uwch a byddai PEGI yn parhau i ddosbarthu'r holl gemau 3+ a 7+. Byddai logos BBFC yn ymddangos ar du blaen pob bocs, a byddai logos PEGI yn ymddangos ar y cefn.

Bydd y system hon yn gweithio orau os bydd BBFC a PEGI yn dod i gytundeb ynghylch eu logos a'u dosbarthiadau oedran, er mwyn sicrhau y gellir mabwysiadu dull gweithredu mwy integredig. Byddai BBFC yn ymestyn ei bwerau statudol i gynnwys gemau 12+ ac uwch, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r system ddosbarthu a ddefnyddir ar gyfer DVDs/fideos, a datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni o ystyr y dosbarthiadau hynny.

C1: Beth yw'ch asesiad cyffredinol ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn gweithio a pham?
C2: Beth yw prif ddiffygion y dewis hwn a sut y byddai modd ei addasu er mwyn eu goresgyn?

C3: Beth yw prif fanteision y dewis hwn a pham?
C4: Yn eich barn chi, a fyddai'r system hon yn gweithio ar gyfer y budd-ddeiliaid allweddol canlynol:
(i) y defnyddiwr?
(ii) y diwydiant gemau?
(iii) y diwydiant manwerthu?
C5: Pa awgrymiadau sydd gennych er mwyn gwella'r system ar gyfer unrhyw rai o'r budd-ddeiliaid allweddol?
C6: Yn eich barn chi, a yw'r system hon yn delio â'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl a fynegwyd gan adolygiad Byron ac os na, pam?
C7: Yn eich barn chi, sut fydd y system hon yn para yn y dyfodol?
C8: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn gweithio yn yr amgylchedd ar-lein?
(i) Os felly, beth fyddai'r manteision?

(ii) Os na, beth fyddai'r problemau ac a oes gennych unrhyw atebion?
C9: Yn eich barn chi, a ddylai'r Llywodraeth ystyried unrhyw wybodaeth arall wrth bwyso a mesur costau'r dewis hwn?
C10: Yn eich barn chi, a yw cael gwahanol ddosbarthiadau oedran ar du blaen ac ar gefn bocs yn peri problem sylweddol? Os ydy, ai'r ateb a gynigir fan hyn yw'r un cywir yn eich barn chi, neu a oes modd i chi awgrymu dewis amgen?
C11: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn fwy costus neu'n llai costus i'r diwydiant gemau ac os felly, pa dystiolaeth sydd gennych o hyn?
C12: Beth yw'r goblygiadau tebygol (gan gynnwys costau) i gynhyrchwyr gemau o gael system ddosbarthu nad oes modd ei throsi yn awtomatig ar draws rhai gwledydd Ewropeaidd eraill?
C13: Byddai o gymorth clywed eich safbwyntiau ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn effeithio ar ddatblygwyr gemau y tu allan i Ewrop, megis y rhai yn Japan neu UD; sef, sut allai'r dewis hwn effeithio arnynt a'r graddau, os o gwbl, y gallai effeithio arnynt.
C14: Yn eich barn chi, beth ddylai fod y nodweddion neu'r ffactorau pwysicaf wrth benderfynu a fydd gêm yn rhwym i ddosbarthiad statudol yn 12+? [gweler yr adran ganlynol]

Beth yw'r meini prawf ynghylch penderfynu ar gêm 12+?

Mae Dr Byron yn argymell y dylid ymestyn dosbarthu statudol i gynnwys gemau y rhoddwyd dosbarthiad 12+ ac uwch iddynt. Daeth i'r casgliad hwn yn ystod ei hadolygiad o'r gwaith ymchwil ynghylch datblygiad plant, sy'n dangos bod plant iau yn llai abl i wahaniaethu rhwng ffantasi a realiti na phlant mwy aeddfed. Yn ogystal, canfu bod rhieni a phlant yn pryderu ac yn drysu ynghylch dosbarthiad gemau, ac mae'n teimlo y byddai system o 12+ ac i fyny, a gefnogir gan y gyfraith, yn rhoi mwy o hyder i rieni, plant a manwerthwyr yn y system, yn ogystal â diogelu plant rhag deunydd a allai fod yn niweidiol. Gwelwyd plant yn rhoi tystiolaeth ynghylch ceisio esbonio i'w rhieni pam na ddylai brodyr a chwiorydd iau (yn enwedig brodyr iau) chwarae gemau nad ydynt yn briodol i'w hoedran.

Mae'r adolygiad yn nodi y byddai'n rhaid i'r diffiniad ynghylch yr hyn a fyddai'n cyfateb â gêm 12+ gael ei ystyried trwy gyfrwng ymgynghoriad cyhoeddus, ond y byddai modd iddo adlewyrchu'r dosbarthiadau sy'n bodoli eisoes yn fras. Enghraifft Dr Byron yw y byddai modd i 12+ gynnwys gemau sy'n cynnwys trais mwy graffig, rhywfaint o noethni mewn cyd-destun rhywiol a rhywfaint o iaith anweddus.

Mae dosbarthiad 12 BBFC ar gyfer DVDs/fideos yn nodi:

- Mae themâu aeddfed yn dderbyniol ond mae'n rhaid i'r ffordd y cânt eu trin fod yn addas i bobl ifanc yn eu harddegau cynnar.
- Rhaid i'r defnydd a wneir o iaith gref fod yn anfynych. Mae cam-drin hiliol yn peri pryder arbennig.
- Caniateir noethni, ond mewn cyd-destun rhywiol, rhaid iddo fod yn gynnil ac am gyfnod byr.
- Gellir awgrymu gweithgarwch rhywiol. Gall cyfeiriadau at ryw adlewyrchu'r hyn sy'n debygol o fod yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn eu harddegau, ond ni ddylai fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n addas ar eu cyfer.
- Ni ddylai trais ymhelaethu ar fanylion. Ni ddylid rhoi unrhyw bwyslais ar anafiadau neu waed. Dim ond awgrymu trais rhywiol y gellir ei wneud, neu wneud cyfeiriad byr a chynnil ato.
- Ni ddylai technegau peryglus (e.e. ymladd, hongian, hunanladdiad a hunan-niweidio) ymhelaethu ar fanylder y gellir ei ddynwared neu ymddangos fel pe bai'n weithgarwch sy'n rhydd o boen neu niwed. Ni ddylid glamoreiddio arfau y mae'n hawdd cael gafael arnynt.
- Caniateir perygl a bygythiadau cymedrol estynedig. Eiliadau gwaedlyd achlysurol yn unig.
- Rhaid i unrhyw weithgarwch camddefnyddio cyffuriau fod yn anfynych, ni ddylid glamoreiddio hyn ac ni ddylai fod yn gyfarwyddol.

Caiff y rhain eu haddasu ymhellach fyth pan fydd BBFC yn dosbarthu gemau fideo oherwydd ei bod yn fwy tebygol y bydd mwy o dramgwydd yn ymddangos trwy gyfrwng gweithgarwch rhyngweithiol, gan gynnwys y gwahanol ffyrdd y gallai chwaraewyr chwarae gemau.

Gall dosbarthiad PEGI 12+ gynnwys:

- Trais o natur ychydig yn fwy graffig na 3+ a 7+, os yw wedi'i anelu at gymeriadau ffantasi (ni ddylai unrhyw drais tuag at gymeriadau sy'n edrych fel pobl neu anifeiliaid y gellir eu hadnabod, fod yn drais graffig o hyd).
- Noethni o natur ychydig yn fwy graffig na 3+ a 7+ (ond ni ddylai ddangos organau cenhedlu o hyd).
- Rhai geiriau sy'n cyfateb ag ensyniadau rhywiol (ond nid mewn ffurf a ystyrir yn 'iaith anweddus').
- Iaith anweddus ysgafn, nad yw'n cynnwys rhegfeydd rhywiol.
- Ensyniadau amlwg ynghylch gweithgarwch rhywiol, er na ellir gweld y pâr, neu eu gweld yn eglur.

Dewis 2 – System BBFC well

BBFC fyddai'r corff dosbarthu statudol ar gyfer yr holl gemau fideo, gan weithredu ei ddosbarthiadau o U i 18. Byddai'n cadw gafael ar ei bŵer i wrthod dosbarthu gemau a allai fod yn niweidiol yn ei farn ef, ar sail ei ymgynghoriadau cyhoeddus.

C15: Beth yw'ch asesiad cyffredinol ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn gweithio a pham?
C16: Beth yw prif ddiffygion y dewis hwn a sut y byddai modd ei addasu er mwyn eu goresgyn?
C17: Beth yw prif fanteision y dewis hwn a pham?
C18: Yn eich barn chi, a fyddai'r system hon yn gweithio ar gyfer y budd-ddeiliaid allweddol canlynol:
(i) y defnyddiwr?
(ii) y diwydiant gemau?
(iii) y diwydiant manwerthu?
C19: Pa awgrymiadau sydd gennych er mwyn gwella'r system ar gyfer unrhyw rai o'r budd-ddeiliaid allweddol?

C20: Yn eich barn chi, a yw'r system hon yn delio â'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl a fynegwyd gan adolygiad Byron ac os na, pam?
C21: Yn eich barn chi, sut fydd y system hon yn para yn y dyfodol?
C22: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn gweithio yn yr amgylchedd ar-lein?
(i) Os felly, beth fyddai'r manteision?
(ii) Os na, beth fyddai'r problemau ac a oes gennych unrhyw atebion?
C23: Yn eich barn chi, a ddylai'r Llywodraeth ystyried unrhyw wybodaeth arall wrth bwyso a mesur costau'r dewis hwn?
C24: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn fwy costus neu'n llai costus i'r diwydiant gemau na'r system bresennol a'r system hybrid ac os felly, pa dystiolaeth sydd gennych o hyn?
C25: Yn eich barn chi, pa rai o'r dewisiadau canlynol fyddai'n gweithio orau yn yr amgylchedd ar-lein a pham?
(i) Symbolau BBFC sy'n cael eu hadnabod fel rhan o PEGI Online; neu

(ii) BBFC.online (ar wahân i system PEGI)
C26: Beth yw'r goblygiadau tebygol (gan gynnwys costau) i gynhyrchwyr gemau o gael system ddosbarthu nad oes modd ei throsi yn awtomatig ar draws rhai gwledydd Ewropeaidd eraill?
C27: Gallai'r dewis hwn gael ei gymhlethu gan wahaniaethau ar draws Ewrop os byddai gemau'n cael eu prynu rywle arall. Mae gennym ddiddordeb mewn cael gwybod a oes tystiolaeth yn bodoli a allai gefnogi neu wrthbrofi hyn. (A fyddech gystal â chyfeirio at Baragraff 2.16)
C28: Byddai gennym ddiddordeb mewn gweld tystiolaeth sy'n dangos a yw'r dewis hwn yn arwain at feichiau ychwanegol i ddatblygwyr gemau ar-lein ac a allai hyn beri dryswch i rieni. (A fyddech gystal â chyfeirio at Baragraff 2.25)
C29: Byddai o gymorth clywed eich safbwyntiau ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn effeithio ar ddatblygwyr gemau y tu allan i Ewrop, megis y rhai yn Japan neu UD; sef, sut allai'r dewis hwn effeithio arnynt a'r graddau, os o gwbl, y gallai effeithio arnynt.

Dewis 3 – System PEGI well

Byddai sefydliad yn y DU (Cyngor Safonau Fideo o bosibl) yn cyflawni rôl y corff dosbarthu statudol dynodedig ar gyfer gemau fideo, gan weithredu dosbarthiadau PEGI. Byddai angen i VSC (neu gorff arall o'r DU a ddewisir) ymrwymo i'r rôl newydd hwn ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Byddai pob gêm fideo yn cael ei dosbarthu gan ddefnyddio system PEGI, ac ni fyddai gan BBFC unrhyw rôl o ran dosbarthu gemau fideo.

C30: Beth yw'ch asesiad cyffredinol ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn gweithio a pham?
C31: Beth yw prif ddiffygion y dewis hwn a sut y byddai modd ei addasu er mwyn eu goresgyn?
C32: Beth yw prif fanteision y dewis hwn a pham?
C33: Yn eich barn chi, sut fyddai'r system hon yn gweithio ar gyfer y budd-ddeiliaid allweddol canlynol:
(i) y defnyddiwr?
(ii) y diwydiant gemau?
(iii) y diwydiant manwerthu?
C34: Pa awgrymiadau sydd gennych er mwyn gwella'r system ar gyfer unrhyw rai o'r budd-ddeiliaid allweddol?

C35: Yn eich barn chi, a yw'r system hon yn delio â'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl a fynegwyd gan adolygiad Byron ac os na, pam?
C36: Yn eich barn chi, sut fydd y system hon yn para yn y dyfodol?
C37: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn gweithio yn yr amgylchedd ar-lein?
(i) Os felly, beth fyddai'r manteision?
(ii) Os na, beth fyddai'r problemau ac a oes gennych unrhyw atebion?
C38: Yn eich barn chi, a ddylai'r Llywodraeth ystyried unrhyw wybodaeth arall wrth bwyso a mesur costau'r dewis hwn?
C39: Yn eich barn chi, pwy fyddai'r corff cywir i gyflawni rôl dosbarthwr statudol gemau fideo a pham?
C40: Yn eich barn chi, a fyddai'r corff a nodwyd yn yr ateb i Gwestiwn 39 yn gallu sefydlu'r system sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth statudol hon a pham? Ond os na, pam?

C41: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn fwy costus neu'n llai costus i'r diwydiant gemau na'r system bresennol a'r system hybrid ac os felly, pa dystiolaeth sydd gennych o hyn?
C42: Yn eich barn chi, a ddylai BBFC barhau i ddosbarthu holl gynnwys (gemau a fideo) disgiau sy'n cynnwys ffilm neu fideo nad yw'n rhan annatod o'r gêm a pham? [a fyddech gystal â chyfeirio at droednodyn 5 wrth ateb y cwestiwn hwn]
C43: Yn eich barn chi, a ddylai PEGI ddosbarthu cynnwys y gêm, tra bod BBFC yn dosbarthu'r cynnwys ffilm/fideo, a pham?
(i) Os felly, a ddylai'r ddau symbol ymddangos ar y bocs?
(ii) Os byddai gwahanol ddosbarthiadau oedran yn cael eu rhoi, ai'r symbol uchaf yn unig ddylai ennill y dydd?
C44: Byddai o gymorth clywed eich safbwyntiau ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn effeithio ar ddatblygwyr gemau y tu allan i Ewrop, megis y rhai yn Japan neu UD; sef, sut allai'r dewis hwn effeithio arnynt a'r graddau, os o gwbl, y gallai effeithio arnynt. (A fyddech gystal â chyfeirio at Baragraff 2.36)

Dewis 4 – Cod Ymarfer Gwirfoddol

Ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth, felly byddai BBFC a PEGI yn parhau i ddosbarthu gemau fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddai'r Llywodraeth yn gofyn i fanwerthwyr a chyflenwyr ymrwymo i God Ymarfer gwirfoddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r system ddosbarthu wrth iddynt werthu/cyflenwi gemau fideo i blant 12 oed neu'n hŷn, er na fyddai trosedd statudol yn cael ei chyflawni os byddent yn torri amodau'r cod. Byddai'r Cod Ymarfer hwn yn canolbwyntio ar ddosbarthu a diogelu defnyddwyr, a byddai'n dilyn y canllawiau a amlinellwyd yn yr adolygiad. Os byddai pobl yn galw am fesurau llymach, byddai modd cefnogi hyn gyda deddfwriaeth statudol a fyddai'n galw ar y diwydiant i ymgynghori ac i gytuno ar God Ymarfer, ac yna, byddai modd ystyried achosion o dorri amodau'r cod hwn yn ystod erlyniad.

C45: Beth yw'ch asesiad cyffredinol ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn gweithio a pham?
C46: Beth yw prif ddiffygion y dewis hwn a sut y byddai modd ei addasu er mwyn eu goresgyn?
C47: Beth yw prif fanteision y dewis hwn a pham?
C48: Yn eich barn chi, sut fyddai'r system hon yn gweithio ar gyfer y budd-ddeiliaid allweddol canlynol:
(i) y defnyddiwr?
(ii) y diwydiant gemau?
(iii) y diwydiant manwerthu?

C49: Pa awgrymiadau sydd gennych er mwyn gwella'r system ar gyfer unrhyw rai o'r budd-ddeiliaid allweddol?
C50: Yn eich barn chi, a yw'r system hon yn delio â'r dystiolaeth ynghylch niwed posibl a fynegwyd gan adolygiad Byron ac os na, pam?
C51: Yn eich barn chi, sut fydd y system hon yn para yn y dyfodol?
C52: Yn eich barn chi, a fyddai'r dewis hwn yn gweithio yn yr amgylchedd ar-lein?
(i) Os felly, beth fyddai'r manteision?
(ii) Os na, beth fyddai'r problemau ac a oes gennych unrhyw atebion?
C53: Yn eich barn chi, a ddylai'r Llywodraeth ystyried unrhyw wybodaeth arall wrth bwyso a mesur costau'r dewis hwn?
C54: Yn eich barn chi, a fyddai'r diwydiant yn ymrwymo i god o'r fath?

C55: A fyddai hyn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r diwydiant (gemau neu fanwerthu) ac a oes modd i chi ddarparu tystiolaeth o hyn?
C56: Yn eich barn chi, a fyddai hyn yn gweithio yn ymarferol?
C57: Byddai o gymorth clywed eich safbwyntiau ynghylch a fyddai'r dewis hwn yn effeithio ar ddatblygwyr gemau y tu allan i Ewrop, megis y rhai yn Japan neu UD; sef, sut allai'r dewis hwn effeithio arnynt a'r graddau, os o gwbl, y gallai effeithio arnynt

Meini prawf ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn *Cod Ymarfer ar Ymgynghori* Swyddfa'r Cabinet. Yn arbennig, ei nod yw:

- ymgynghori yn eang trwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod y broses o ddatblygu'r polisi;
- bod yn eglur ynghylch ein cynigion, y sawl a allai gael eu heffeithio, pa gwestiynau yr hoffem eu gofyn a'r amserlen er mwyn ymateb;
- sicrhau bod ein hymgynghoriad yn eglur, yn gryno a bod modd troi ato yn eang;
- sicrhau ein bod yn rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a gafwyd, a sut y mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar ddatblygiad y polisi;
- monitro effeithiolrwydd ein gwaith ymgynghori, gan gynnwys defnyddio cydlynydd dynodedig ar gyfer yr ymgynghoriad; a sicrhau bod ein hymgynghoriad yn dilyn arfer gorau rheoleiddio gwell, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan fo hynny'n briodol.

Mae modd gweld testun llawn y cod ymarfer trwy droi at: www.berr.gov.uk/files/file44364.pdf

Cyfrinachedd gwybodaeth

Gall gwybodaeth a ddarparir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r gweithdrefnau troi at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os hoffech i'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi gael ei chadw yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod cod ymarfer statudol yn bodoli dan FOIA, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac sy'n delio gydag ymrwymiadau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill. O ystyried hyn, byddai o gymorth pe bai modd i chi esbonio i ni pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych chi yn wybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn warantu y bydd modd cynnal cyfrinachedd bob amser. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar yr Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu'ch data personol yn unol â DPA ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei datgelu i drydydd partïon.

Yn ogystal, gallwn ddarparu dogfennau
er mwyn bodloni gofynion penodol
pobl y mae ganddynt anableddau.
Ffoniwch 020 7211 6200 neu
anfonwch e bost at enquiries@culture.gov.uk

Department for Culture, Media and Sport
© Hawlfraint y Goron
Gorffennaf 2008/PP1133

Department for Culture, Media and Sport

2 4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk